Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau

# Polisi a gweithdrefnau

Diweddarwyd ar gyfer Medi 2024

## Tudalen wybodaeth

**Blwch gwybodaeth**

Am fwy o gyngor cysylltwch â: Fiona Arnison AEF neu Liz Barry AEF

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024
Dyddiad adolygu arfaethedig: 1/9/28

**Rheoli fersiwn**

| Dogfen fersiwn | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Dai Williams | Ionawr 2013 | Amlinellu rheolaeth o berfformiad AYG, ac effaith ansawdd ar dendro. |
| 2.0 | Dai Williams | Ionawr 2016 | Edrych ar raddau C a llenwi FfGAau<br>Ailfformatio'r logo ac ati |
| 3.0 | Barry Norris | Ionawr 2017 | Newid i'r trefniadau SA ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir |
| 4.0 | Barry Norris | Medi 2017 | Diwygiwyd i gyfrif am y trefniadau arolygu newydd o 1 Medi 2017 |
| 5.0 | Fiona Arnison | Ionawr 2018 | Gwahanu rolau Swyddog Arweiniol SA a Swyddog Arweiniol Polisi Arolygu<br>Ychwanegu SA gwasanaethau cyfieithu |
| 6.0 | Fiona Arnison | Ebrill 2019 | Eglurhad i atodiad 2, tabl effaith hyfforddiant ar gyfer cam 3 |
| 7.0 | Fiona Arnison | Medi 2021 | Adlewyrchu dileu barnau crynodol o'r broses arolygu ac is-raddau o ffurflenni SAAr/SAAd |
| 8.0 | Fiona Arnison/Liz Barry | Medi 2024 | Adlewyrchu tôn y llais, a'r newidiadau mewn arolygu o'r dyddiad hwn, yn cynnwys ymweliadau interim |

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynghylch y polisi hwn at:

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflawni Estyn.

Yn unol ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb Estyn, cynhaliwyd asesiad effaith sgrinio cychwynnol ac ni ystyrir bod y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar sail y naw nodwedd warchodedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn (heblaw logos yr adrannau) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

## Trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau

Y ddogfen hon yw polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau. Mae sicrhau ansawdd yn ein helpu i gynnal safonau uchel yn ein gwaith ond mae hefyd yn rhoi adborth gwerthfawr i ni er mwyn helpu gwella ein dulliau a'n harferion yn barhaus.

Hefyd, mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r gweithdrefnau y bydd Estyn yn eu dilyn wrth ddelio ag unrhyw berfformiad gan Arolygwyr Cofrestredig, Arolygwyr Ychwanegol, Arolygwyr Lleyg neu Arolygwyr Cymheiriaid yn ystod arolygiadau nad yw'n bodloni ein gofynion.

Mae telerau cyffredinol y polisi hwn wedi bod ar waith er mis Medi 2010. Diweddarwyd y ddogfen ar gyfer Medi 2017 i adlewyrchu newidiadau i'n trefniadau arolygu o ran arolygwyr dan gontract, ac yn 2021 i adlewyrchu dileu barnau crynodol. Cyflwynom systemau ar y we ar gyfer llenwi ffurflenni sicrhau ansawdd o Hydref 2011 ymlaen, a diweddarwyd y rhain o Fedi 2021, ac eto o Fedi 2024. Diweddarwyd y ddogfen ymhellach i adlewyrchu'r newidiadau yn y sector nas cynhelir, ymweliadau dros dro a rôl Estyn wrth sicrhau ansawdd cyfieithiadau.

Mae Estyn yn sicrhau ansawdd ein holl adroddiadau arolygiadau cyn eu cyhoeddi. Yn ychwanegol, mae cyfarwyddwyr cynorthwyol, cyfarwyddwyr strategol ac AEF eraill yn ymweld â chyfran o ddarparwyr sy'n cael arolygiadau bob blwyddyn, i sicrhau ansawdd gwaith y tîm.


Ers Medi 2016, daeth pob arolygiad yn y sector meithrin nas cynhelir dan arweiniad Estyn neu AGC. Newidiodd y trefniadau sicrhau ansawdd hefyd i sicrhau bod ansawdd pob arolygiad yn y sector nas cynhelir yn cael ei sicrhau cyn cyhoeddi'r adroddiadau. Mae'r polisi hwn yn cyflwyno'r trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer arolygiadau dan arweiniad Estyn yn y sector.[1]

---

[1] At ddibenion y ddogfen hon:

- Ystyr 'dan arweiniad AEM' yw arolygiad sy'n cael ei arwain gan AEM neu secondai
- Mae 'dan arweiniad AYG' yn golygu unrhyw arolygiad dan arweiniad Arolygydd Ychwanegol (AY) e.e. Arolygydd Cofrestredig (ACof) o dan gontract uniongyrchol gydag Estyn
- Mae 'dan arweiniad Estyn' yn cynnwys arolygiadau dan arweiniad AEM (neu secondai) neu Arolygydd Ychwanegol. Mae 'Arolygydd Cofnodol' (ACof) yn cyfeirio at yr AEM, secondai, Arolygydd Cofrestredig neu Arolygydd Cofrestredig Meithrin sy'n arwain y tîm arolygu ac sy'n gyfrifol am gyflwyno'r adroddiad a'r dystiolaeth arolygu i Estyn
- Mae 'Arolygydd Ychwanegol dan Gontract' (AYG) yn derm generig sy'n cynnwys Arolygwyr Cofrestredig, Arolygwyr Ychwanegol (yn gweithio fel aelodau tîm) ac Arolygwyr Lleyg
- Mae 'arolygiadau' yn cyfeirio at arolygiadau craidd a gweithgarwch monitro dilynol a gynhelir o dan Ddeddf Addysg 2005. Mae 'ymweliadau' yn cyfeirio at ymweliadau interim anstatudol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2024.

Mae rôl ein gweithlu arolygwyr allanol yn werthfawr. Mae’r trefniadau hyn hefyd yn ein helpu i’w cynorthwyo â’u datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer arolygu.



**Owen Evans**

**Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| 1 Cyd-destun | 1 |
| 2 Rôl Arolygwyr Cofnodol wrth sicrhau ansawdd | 3 |
| 3 Rôl Estyn wrth sicrhau ansawdd | 3 |
| 4 Ymateb i berfformiad nad yw'n bodloni gofynion | 8 |
| 5 Tynnu enw o'r rhestr arolygwyr cofrestredig/ymrestredig | 11 |
| Atodiad 1: Map o'r Broses Monitro Ansawdd | 13 |
| Atodiad 2: Tabl o effaith hyfforddiant | 14 |
| Atodiad 3: Arolygwyr Cymheiriaid | 15 |
| Atodiad 4: Sicrhau ansawdd arolygiadau ar y cyd Estyn ac AGC | 16 |

## 1 Cyd-destun

1.1 Mae gan Estyn ddyletswydd statudol i sicrhau bod arolygwyr yn cynnal arolygiadau o ansawdd da. Mae darpariaethau Deddf Addysg 2005 a rheoliadau dilynol yn ein galluogi ni i fonitro a gwerthuso gwaith arolygwyr ychwanegol dan gontract (AYG).

1.2 Mae gennym ystod o weithgareddau a gofynion sy'n helpu i sicrhau arolygiadau o ansawdd da, a gwella ein harfer yn barhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 'Beth rydym ni'n ei arolygu', 'Sut rydym ni'n arolygu', pecynnau cymorth arolygu penodol i sector a dogfennau arweiniad ategol
- dethol AYGau, eu hyfforddi a'u hasesu'n gychwynnol
- hyfforddiant parhaus a diweddariadau i arolygwyr ynghylch materion arolygu cyfredol
- diweddaru arweiniad arolygu yn rheolaidd
- gofynion i arolygwyr weithio yn ôl cod ymddygiad a meddylfryd arolygu, yr arweiniad arolygu, yn unol ag amodau cyffredinol a bennwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEF)
- gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ac adroddiadau trwy fonitro ansawdd sampl o arolygiadau a phob adroddiad arolygu
- proses lle bydd yr ACof yn llenwi Ffurflen Gwerthuso Arolygwyr (FfGA) gan werthuso gwaith ei Dîm, yr Arolygydd Lleyg a'r Arolygydd Cymheiriaid
- proses o gael adborth gan ddarparwyr ar ffurf holiaduron ôl-arolygiad (HOA) neu holiaduron ar ôl ymweliadau interim (HOAI)
- gweithdrefn adborth a chwynion
- ein prosesau hunanwerthuso blynyddol sy'n helpu sicrhau bod y dystiolaeth o bob un o'r gweithgareddau hyn yn cefnogi ein hyfforddiant parhaus, diweddariadau i arweiniad ac unrhyw newidiadau i ddulliau arolygu

1.3 Gallai unrhyw fethiant gan dimau i gynnal arolygiadau o ansawdd da gael effaith andwyol, sylweddol ar ein henw da ymhlith ysgolion ac mewn addysg yng Nghymru yn gyffredinol. Mae hyn yn cynrychioli risg sylweddol i ddilysrwydd a hygrededd arolygiadau. Os yw PAEF yn pryderu ynghylch agweddau ar berfformiad unrhyw AYG, naill ai'n gysylltiedig â'r dull o gynnal yr arolygiad neu'r adroddiad ysgrifenedig, gall PAEF fynnu bod arolygydd o'r fath yn cadw at amodau ychwanegol a all gael eu cymhwyso neu dynnu enw'r arolygydd o'r Rhestr Gofrestredig/Ymrestredig o arolygwyr (dadgofrestru), yn amodol ar broses apelio. Bydd y camau a gymerwn yn gymesur â'r pryderon neu'r methiannau a ddaw i'n sylw.

1.4 Mae'r polisi a'r gweithdrefnau canlynol yn amlinellu rôl yr ACof sy'n gweithio o dan gontract gydag Estyn, a'n rôl wrth ymdrin â sefyllfaoedd pan na fydd gwaith AYGau (Arolygwyr Cofnodol, Arolygwyr Tîm ac Arolygwyr Lleyg) yn bodloni'r safonau gofynnol. Pan fydd sefyllfaoedd o'r fath yn gyfystyr â thor-contract, gallwn fynd ar drywydd ein rhwymedïau cytundebol o dan y contract. Fodd bynnag, o dan Deddf 2005 (cyfeiriadau yn adran 26 ac atodlen 4), gall PAEF hefyd dynnu enw unrhyw arolygydd o'r Rhestr Gofrestredig/Ymrestredig pan fydd PAEF yn fodlon:

- nad yw'r arolygydd hwnnw yn berson addas a chywir mwyach i weithredu fel aelod o dîm arolygu

- nad yw’r arolygydd yn abl mwyach i gynorthwyo ag arolygiad yn gymwys ac yn effeithiol
- bod yr arolygydd wedi methu’n sylweddol â chydymffurfio ag unrhyw amod y mae PAEF wedi’i osod arnynt neu
- bod yr arolygydd, heb esboniad rhesymol, wedi cynhyrchu adroddiad ar arolygiad sydd, yn gyfan gwbl neu’n rhannol, yn hynod gamarweiniol (yn gymwys i Arolygwyr Cofnodol yn unig)

## 2 Rôl Arolygwyr Cofnodol wrth sicrhau ansawdd

**Arolygwyr Cofnodol**

2.1 Yr arolygydd cofnodol (ACof) sydd â'r cyfrifoldeb dros reoli a monitro holl waith aelodau tîm ac i roi adborth i arweinwyr yn Estyn os bydd unrhyw anawsterau'n codi. Mae'n rhaid i'r ACof sicrhau ansawdd gwaith pob aelod tîm, gan gynnwys eu hymddygiad mewn cyfarfodydd a chwblhau tystiolaeth arolygu ganddynt. Hefyd, mae disgwyl i'r ACof ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi yn ystod yr arolygiad ei hun, er enghraifft, pryderon a fynegir gan enwebai'r ysgol. Dylai'r ACof roi adborth ar ansawdd gwaith yr holl aelodau tîm perthnasol, gan ddefnyddio meini prawf cytûn, a thrwy lenwi'r ffurflenni gwerthuso arolygydd priodol ar y we.

## 3 Rôl Estyn wrth sicrhau ansawdd

3.1 Mae'r rhaglen ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ac adroddiadau yn cyfrannu at gyflwyno addysg o ansawdd uchel yng Nghymru. Rydym yn cael gwybodaeth am ansawdd gwaith arolygwyr unigol mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys:

- sicrhau ansawdd arolygiadau craidd ac ymweliadau interim (SAAr) yn uniongyrchol gan AEF a chyfarwyddwyr cynorthwyol
- sicrhau ansawdd adroddiadau a llythyrau cyhoeddedig ar ôl ymweliad (SAAd) gan AEF a chyfarwyddwyr cynorthwyol
- Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA) wedi'u llenwi gan yr ACof
- data caffael ar AYGau sy'n terfynu eu contractau
- adborth, gan gynnwys pryderon gan ddarparwyr ac ar ffurf holiaduron ôl-arolygiad (HOA) neu holiaduron ar ôl ymweliadau interim (HOAI)
- cwynion sy'n cael eu cadarnhau

3.2 Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein gwaith cyffredinol ar hyfforddiant ac arweiniad, i ystyried unrhyw welliannau i'n dulliau arolygu a'n helpu i gefnogi arolygwyr unigol i wella'u perfformiad. Gall hyn gynnwys ymateb i berfformiad anfoddhaol.

3.3 Ein contractwr (Trosol ar hyn o bryd) sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd gwasanaethau cyfieithu Estyn. Rydym yn cynnal archwiliadau cyfnodol o gyfieithiadau Cymraeg i Saesneg gyda'r bwriad i sicrhau ansawdd gwaith cyfieithu. Os byddwn yn nodi problemau, byddwn yn rhoi adborth i'r contractwr gwasanaeth cyfieithu ar sut gallai wella'i waith.

3.4 Lle bo AEF yn monitro ansawdd arolygiadau ac adroddiadau a gwblhawyd gan AYGau, byddant yn dyfarnu graddau ar gyfer ansawdd y gwaith a welant ar ffurflenni Sicrhau Ansawdd Arolygiadau (SAAr) a Sicrhau Ansawdd Adroddiadau (SAAd). Lle bo ACof yn monitro ac yn asesu gwaith Arolygwyr Tîm, Arolygwyr Lleyg ac Arolygwyr Cymheiriaid, byddant yn cofnodi graddau am ansawdd y gwaith a welant ar Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA). Mae enghreifftiau o'r ffurflenni hyn ac arweiniad ar eu llenwi i'w gweld ym 'mhecyn canllawiau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau'.

3.5 Ar ffurflenni FfGAau, bydd yr ACof yn defnyddio'r graddau canlynol i farnu ansawdd y gwaith arolygu y dônt ar ei draws:

**A** – yn bodloni'r gofynion ym mhob agwedd neu bron ym mhob agwedd
**B** – yn bodloni'r gofynion, ond nifer o fân ddiffygion
**C** – yn bodloni'r gofynion, ond gydag ychydig ddiffygion pwysig
**D** – nid yw'n bodloni'r gofynion o ganlyniad i ddiffygion mawr neu fethiannau difrifol iawn

Bydd AEF yn defnyddio'r graddau hyn i roi barn gyffredinol i Arolygwyr Cofrestredig ac Arolygwyr Cofrestredig Meithrin sy'n arwain arolygiad, a hynny drwy'r ffurflenni SAAr a SAAd

3.6 Hefyd, byddwn yn ystyried dyfarnu gradd C neu D i'r:

- AYGau hynny sy'n terfynu eu contractau
- lle bo cwyn yn erbyn yr AYG wedi ei chadarnhau

**Sicrhau ansawdd arolygiadau yn uniongyrchol**

3.7 Mae sicrhau ansawdd arolygiadau yn ein galluogi i:

- gael tystiolaeth uniongyrchol o sut mae'r system arolygu yn gweithio mewn ysgolion/darparwyr i'n helpu i wella'n barhaus
- arsylwi a gwerthuso gwaith ACof a rhoi adborth iddynt ar eu perfformiad
- dysgu gwersi a fydd yn bwydo i'n rhaglen hyfforddi i gefnogi'r rhai sy'n arolygu ar ein rhan
- dangos i randdeiliaid ein bod yn ymroddedig i sicrhau cysondeb a thegwch yn y broses

**Sicrhau ansawdd arolygiadau (SAAr)**

3.8 Byddwn fel arfer yn sicrhau ansawdd tua 10% o'r arolygwyr sydd dan gontract i arwain arolygiad bob blwyddyn. Mae'r 10% hwn yn berthnasol i arolygiadau ysgolion ac i arolygiadau o leoliadau nas cynhelir dan arweiniad Estyn. Mae cyfarwyddwyr cynorthwyol hefyd yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau dan arweiniad AEF bob blwyddyn.

3.9 Fel arfer, bydd gweithgarwch SAAr yn cynnwys un AEF neu gyfarwyddwr cynorthwyol yn ymweld â'r ysgol/darparwr i:

- siarad â staff am y dull o gynnal yr arolygiad a'r meddylfryd canfyddedig
- gwerthuso gwaith aelodau tîm, yn enwedig yr ACof, gan gynnwys pa mor dda y mae'r ACof yn cynnal cyfarfodydd ac yn rheoli gwaith y tîm
- asesu ansawdd y sail dystiolaeth, gan gynnwys:
  - llenwi ffurflenni mewnbwn electronig a defnyddio'r ystafell arolygu rithwir (YAR)
  - cofnodion cyfarfodydd, arsylwadau o arfer yr ystafell ddosbarth a gweithgarwch arolygu arall, e.e. craffu ar waith disgyblion a chynlluniau gwella ysgolion (yr holl nodiadau sydd wedi'u cynnwys mewn ffurflenni mewnbwn tîm unigol neu FfMT)

- herio canfyddiadau arolygu, lle bo'n briodol, i wirio bod gwerthusiadau'n drylwyr ac yn gadarn

3.10 Yn achos arolygiadau dan arweiniad AYG pan fydd SAAr yn mynd yn ei flaen, bydd yr AEF sy'n cynnal y gweithgarwch SAAr yn llenwi ffurflen SAAr yn yr ystafell arolygu rithwir ac yn dyfarnu gradd SAAr gyffredinol i waith yr ACof. Bydd ffocws y sylwadau ar y ffurflen SAAr ar nodi unrhyw achlysuron pan nad yw ACof yn bodloni gofynion. Mae disgwyl i bob arolygydd fodloni gofynion Estyn felly nid oes angen i hyn ynddo'i hun ddenu unrhyw sylw penodol ar y ffurflen ond gall gael ei gyfleu'n ddigonol trwy ddyfarnu gradd A neu B gyffredinol. Cyfeiriwch at 'becyn cymorth Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau' i weld enghraifft o ffurflen SAAr.

**Sicrhau ansawdd adroddiadau (SAAd)**

3.11 Byddwn yn sicrhau ansawdd pob ffurflen mewnbwn adrodd (FfMA) (100%) a gyflwynir gan ACof, boed yn AYGau neu AEF, cyn cyhoeddi. Yn y sector nas cynhelir, lle caiff yr holl arolygiadau eu cwblhau ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), mae hyn yn berthnasol i bob arolygiad dan arweiniad Estyn.

3.12 Bydd y ffurflen mewnbwn adrodd yn mynd trwy ein proses olygu a sicrhau ansawdd cyn bod yr adroddiad yn cael ei anfon i'r darparwr i wirio cywirdeb ffeithiol. Cynhwysir yr ACof trwy gydol y broses hon. Mae disgwyl i ACof ymateb yn gydwybodol ac yn ddiymdroi i'r sylwadau a'r awgrymiadau a wneir gan AEF drwy'r broses olygu a SAAd. Mae'r broses hon yn elfen allweddol o safoni a dilysu canfyddiadau. Pan fydd y broses olygu a sicrhau ansawdd yn arwain at newid posibl i ganfyddiadau neu ganlyniad arolygiad, dylai'r ACof ymateb yn briodol, er enghraifft trwy gytuno i newid ffocws y negeseuon sydd yn y testun yng ngoleuni'r dystiolaeth arolygu neu drwy olygu'r adroddiad i adlewyrchu'r canlyniad cytûn yn well.

3.13 Pan fydd yr Arolygydd Cofnodol dan gontract i Estyn, bydd AEF yn dyfarnu gradd SAAd gyffredinol i'r ACof am ansawdd yr ysgrifennu, ymdriniaeth ag agweddau ar y fframwaith arolygu a llenwi'r ffurflen mewnbwn adrodd yn gywir.

3.14 Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai'r ACof sy'n gyfrifol am ansawdd cyffredinol yr adroddiad cyhoeddedig. Cyfeiriwch at 'becyn canllawiau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau' i weld enghraifft o'r ffurflen SAAd.

**Cymedroli graddau SA (SAAr a SAAd)**

3.15 Mae rôl gan aelod o'r rhwydwaith sector perthnasol (arolygydd arweiniol y sector neu gyfwerth, fel arfer) mewn cymedroli gwaith sicrhau ansawdd AEF yn y sector. Hefyd, mae gan y Swyddog Arweiniol ar gyfer Polisi Arolygu a'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Sicrhau Ansawdd rôl mewn cymedroli ffurflenni SA sy'n awgrymu bod gwaith AYG gerllaw neu islaw'r safon sy'n ofynnol gan Estyn (graddau C a D). Mae'r Swyddog Arweiniol ar gyfer SAAr hefyd yn ystyried sampl o ffurflenni sydd â'r graddau uwch (graddau A a B) i wirio am gysondeb ar draws y gwaith SA a wneir gan arolygwyr. Mae arolygydd arweiniol y sector yn y lle cyntaf, ac yna'r Swyddog Arweiniol ar gyfer PA neu SA, ar gael i fynd i'r afael â phryderon gan ACof y gallai fod cwestiynau ganddynt ynghylch y graddau a allai fod wedi cael eu dyfarnu iddynt. Os oes pryderon pellach, efallai bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol yn adolygu'r radd a ddyfarnwyd.

**Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGAau)**

3.16 Ym mhob arolygiad, bydd gofyn i'r ACof ddefnyddio Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) i gofnodi gwerthusiad o berfformiad pob Arolygydd Tîm, Arolygydd Lleyg, Arolygydd Cymheiriaid a Phartneriaid Gwella Ysgolion, fel y bo'n briodol.

3.17 Mae'r FfGA yn cynnwys cyfuniad o hunanwerthuso gan yr arolygydd, adborth gan yr arolygydd a gwerthusiad o berfformiad yr arolygydd gan yr ACof. Caiff yr arolygydd gyfle i lenwi elfennau hunanwerthuso ac adborth y ffurflen cyn pen pum niwrnod o ddiwedd yr arolygiad. Ar ôl hyn, nid yw'n bosibl llenwi'r adran hunanwerthuso nac adborth gan fod y ffurflen yn symud draw i'r ACof i'w llenwi. Y nod yw llenwi pob FfGA yn gyfan gwbl cyn pen 10 niwrnod o ddiwedd yr arolygiad.

3.18 Mae'r FfGA yn cynnwys is-raddau a gradd gyffredinol ar berfformiad, gan yr arolygydd cofnodol. Ni ddylai'r radd gyffredinol fod yn fwy nag un radd yn uwch na'r is-radd isaf ar y ffurflen. Ni ddylai'r radd gyffredinol fod yn is na'r is-radd isaf a ddyfernir. Mae'r ffurflen hefyd yn cynnwys y cyfle i arolygwyr unigol a'r ACof nodi meysydd posibl i ganolbwyntio arnynt mewn arolygiadau yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl i bob arolygydd chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella'u harfer a'u dulliau ymhellach.

3.19 Mae'r Swyddog Arweiniol ar gyfer SA yn ystyried sampl o ffurflenni i wirio am gysondeb ar draws y gwaith SA a wneir gan arolygwyr. Mae arolygydd arweiniol y sector yn y lle cyntaf, yna'r Swyddog Arweiniol ar gyfer SAAr, ar gael i fynd i'r afael â phryderon gan arolygwyr y gallai fod cwestiynau ganddynt am y graddau a ddyfarnwyd. Os oes pryderon pellach, efallai bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol yn adolygu'r graddau a ddyfarnwyd.

**Cwynion**

3.20 Gall cwynion neu bryderon ddod oddi wrth staff yr ysgol/lleoliad, llywodraethwyr, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, neu eraill.

3.21 Mae'n rhaid i'r ACof roi pob cyfle i'r ysgol/lleoliad godi unrhyw bryderon, drwy gydol yr arolygiad. Mae'n rhaid delio â'r rhain yn sensitif ac yn gadarnhaol ac, os oes modd, eu datrys yn y fan a'r lle. Os na ellir datrys pryderon, rhaid rhoi cyngor i'r achwynydd ar sut i wneud cwyn a'i gyfeirio at ein gweithdrefnau cwyno ('Gweithdrefn delio â chwynion 2021') yn www.estyn.llyw.cymru. Byddwn yn cadw cofnod o bob cwyn a bydd yn adolygu'n rheolaidd y rhestr arolygwyr allanol a fu'n destun cwyn a gadarnhawyd. Bydd un gŵyn wedi'i chadarnhau yn cael ei hystyried yn ddiffyg pwysig yn gyfwerth ag un radd C. Os ystyrir bod y gŵyn yn ddiffyg mawr ac mae'n cael ei chadarnhau, bydd hyn yn gyfwerth ag un radd D.

**Adborth o holiaduron ôl-arolygiad**

3.22 Gallem gael adborth hefyd gan ysgolion/darparwyr ar ffurf holiaduron ôl-arolygiad (HOA). Mae'r holiaduron hyn yn rhoi'r cyfle i ddarparwyr werthuso agweddau ar y broses arolygu, gan gynnwys:

- paratoi ar gyfer arolygiad
- cyfathrebu cyn-arolygiad gyda'r darparwr a rhanddeiliaid

- y dull o gynnal yr arolygiad
- ansawdd y dystiolaeth a'r gwerthusiad

3.23 Mae dadansoddiad o bob HOA yn nodi a yw'r darparwr yn ystyried bod yr arolygiad yn brofiad cadarnhaol neu negyddol at ei gilydd. Os yw'r darparwr o'r farn bod rhai meysydd o'r arolygiad wedi'u cynnal yn amhriodol neu wedi mynegi ymateb negyddol iawn ynghylch ei arolygiad, byddwn yn trafod unrhyw bryderon gyda'r canlynol:

- yr ACof
- arolygydd arweiniol y sector a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol
- y Swyddog Arweiniol ar gyfer Polisi Arolygu neu'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Sicrhau Ansawdd

3.24 Bydd pob math o adborth, gan gynnwys pryderon gan ddarparwyr ar ffurf HOAau, yn cael eu hystyried wrth werthuso ansawdd gwaith arolygydd unigol. Rydym hefyd yn defnyddio'r adborth a ddarperir fel rhan o'n prosesau hunanwerthuso blynyddol i nodi gwelliannau pellach y gallwn eu gwneud ar draws ein holl waith.

**Methiannau difrifol**

3.25 Diffinnir methiant difrifol fel a ganlyn:

- Unrhyw adroddiad hynod gamarweiniol a nodir yn dilyn adolygiad gan AEF o adroddiad arolygu neu sail dystiolaeth arolygiad.
- Unrhyw arolygiad hynod ddiffygiol a nodir o ganlyniad i ymweliad ag arolygiad i asesu ei ansawdd neu drwy graffu ar aseiniadau tîm arolygu neu yn dilyn adolygiad gan AEF o sail dystiolaeth arolygiad, er enghraifft o ganlyniad i gŵyn.
- Unrhyw ymddygiad annerbyniol a nodir drwy sicrhau ansawdd arolygiad neu o ganlyniad i gŵyn

3.26 Lle byddwn yn darganfod bod adroddiad arolygu yn hynod gamarweiniol neu fod arolygiad yn hynod ddiffygiol, neu y bu ymddygiad annerbyniol gan arolygydd, byddwn yn gweithredu ar unwaith mewn perthynas â'r arolygydd o dan gam 2 y broses ymateb i berfformiad nad yw'n bodloni'r gofynion (gweler adran 4).

3.27 Lle byddwn yn llunio barn bod arolygiad yn hynod gamarweiniol, p'un a fyddwn wedi derbyn yr esboniad ai peidio, byddwn yn ysgrifennu at yr awdurdod priodol ac at bennaeth yr ysgol neu'r unigolyn arweiniol mewn lleoliad neu ddarparwr i gyflwyno'n pryderon. Ar ôl ymgynghori â'r darparwr ac ystyried unrhyw amgylchiadau penodol sy'n bodoli, mae'n bosibl y byddwn yn cynnig arolygiad pellach i'r darparwr. Bydd arolygiad o'r fath yn digwydd ar amser sy'n cael ei bennu gennym ni ar ôl ymgynghori â'r darparwr.

**Ymweliadau interim**

3.28 Mae ymweliadau interim yn ychwanegiad anstatudol at ein hymagwedd at arolygu, ac yn cael eu harwain a'u staffio i ddechrau gan AEF. Bydd Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn sicrhau ansawdd sampl o ymweliadau interim (SAArYI), a bydd AEF yn sicrhau ansawdd yr holl lythyrau cyhoeddedig sy'n deillio o ymweliadau interim (SAAIdYI). Byddwn yn casglu adborth darparwyr trwy holiadur ar ôl ymweliad interim (HOAI).

## 4 Ymateb i berfformiad nad yw'n bodloni gofynion

4.1 Diben y broses sicrhau ansawdd yw cefnogi'r arolygydd i wella'i berfformiad a sicrhau bod gwaith arolygu o ansawdd uchel.

4.2 Byddwn yn gweithio i wella perfformiad unigol drwy:

- gyhoeddi arweiniad ychwanegol i gefnogi timau arolygu yn eu gwaith; a
- hyfforddi pob arolygydd yn rheolaidd
- awgrymu meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol

4.3 Ein nod yw darganfod perfformiad nad yw'n bodloni gofynion ac ymateb iddo yn gyflym, yn glir ac yn deg. Rydym yn coladu ac yn adolygu ein gwybodaeth SA yn rheolaidd ar gyfer hyn. Bydd gwahanol lefelau o berfformiad anfoddhaol yn denu gwahanol gamau gweithredu gennym ni. Ar gyfer AEF, gwelir unrhyw danberfformio trwy ein gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â thanberfformio gan arolygwyr allanol.

**Y cyfnod monitro**

4.4 Byddwn yn cofnodi graddau sicrhau ansawdd trwy gydol y cylch arolygu. Bydd yr holl raddau SA (SAAr a SAAd) a graddau FfGA yn cael eu casglu mewn cronfa ddata at ddibenion dadansoddi. Yn ogystal, bydd cofnodion ynglŷn â chwynion, terfynu contractau ac adborth yn cael eu casglu at ddibenion dadansoddi. Wrth ddod i benderfyniadau ynghylch gwaith arolygwyr mewn perthynas â dyfarnu contractau, byddwn yn ystyried ansawdd y tri arolygiad diwethaf a wnaed fel Arolygydd Cofnodol, Arolygydd Tîm neu Arolygydd Lleyg, yn ôl sector.

4.5 At ei gilydd, bydd enghreifftiau o fethiant i fodloni ein gofynion neu'n cod ymddygiad yn parhau'n weithgar at ddibenion monitro am gyfnod treigl o 35 mis yn unig.

**Cam 1: Anffurfiol**

4.6 Os bydd pryderon cyffredinol yn codi am unrhyw arolygydd, bydd cam 1 y weithdrefn yn cael ei rhoi ar waith gyda'r nod o sicrhau perfformiad gwella. Gall y cyfryw bryderon godi, o fewn sector, ynghylch unrhyw arolygydd mewn perthynas â phryderon/mân ddiffygion cyson neu batrwm o raddau ansawdd isel (dau arfarniad gradd C yn eu tri arolygiad diwethaf). Gallem ystyried y wybodaeth ganlynol wrth werthuso perfformiad:

- gradd SAAr
- gradd SAAd
- gradd FfGA
- cwynion sy'n cael eu cadarnhau
- terfynu contractau
- bydd adborth, gan gynnwys pryderon gan ddarparwyr ar ffurf HOAau, yn cyfrannu at wybodaeth am ansawdd gwaith arolygydd unigol hefyd

4.7 O'u cymryd yn unigol, efallai na fydd yr enghreifftiau hyn yn ddifrifol. Fodd bynnag, o'u cymryd ynghyd, gall fod angen gweithredu arnynt.

4.8 Bydd y broses i gychwyn yn cynnwys trafodaeth anffurfiol ar y ffôn gyda'r AYG ar y cyfle cynharaf posibl, fel arfer dan arweiniad Cyfarwyddwr Cynorthwyol, arolygydd arweiniol y sector neu'r swyddog arweiniol ar gyfer PA neu SA.

4.9 Yn ystod y drafodaeth ffurfiol, byddwn:

- yn esbonio ein pryderon
- yn rhoi'r cyfle i'r AYG drafod ei ganfyddiad/chanfyddiad o'i berfformiad/pherfformiad ei hun
- yn trafod a chytuno'r gwelliannau angenrheidiol, sut byddai'r modd gorau o'u cyflawni ac erbyn pryd (gan ddefnyddio'r daflen monitro cynlluniau gweithredu ym 'mhecyn cymorth Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau') a beth fyddwn yn ei wneud i helpu'r arolygydd i wella
- yn esbonio y bydd gwaith yr arolygydd yn cael ei fonitro'n fanwl yn ystod arolygiadau yn y dyfodol
- yn esbonio os nad yw perfformiad yn gwella, o fewn y raddfa amser a gytunwyd, y gallai fod yn angenrheidiol symud at gam 2: Gweithdrefn ffurfiol

4.10 Dyma enghreifftiau o gamau y gellir eu cynnwys yn y cynllun gweithredu uchod:

- AYG yn darparu esboniad ysgrifenedig y tu ôl i'r diffygion a nodwyd
- AYG yn ymgymryd â hyfforddiant pellach ar ei draul/ei thraul ei hun ac o fewn pellter rhesymol i gartref yr AYG
- AYG yn lleihau gweithgarwch arolygu
- Estyn yn cefnogi camau gofynnol i wella perfformiad drwy hyfforddiant neu gyngor, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny

4.11 Ar ôl ymyrraeth gennym ni yng ngham 1, os yw gwaith yr AYG yn gwella (gradd A neu B wedi'i dyfarnu o fewn y sector perthnasol) ac nad oes unrhyw ddigwyddiadau sy'n teilyngu gradd C neu D, yna ni chymerir unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, os yw'r arolygydd, yn ei bump/phump arolygiad diwethaf o fewn y sector perthnasol (gan gynnwys yr arolygiadau hynny a ystyrir yng ngham 1), yn cael tair gradd C neu un radd D, bydd camau gweithredu Cam 2 yn gymwys.

**Cam 2: Ffurfiol**

4.12 Os oes pryder sylweddol, er enghraifft diffyg cydymffurfio â Disgwyliadau Arolygwyr neu duedd o gael graddau C (tair yn ei bump/phump arolygiad diwethaf), un radd D neu fethiant difrifol, yna byddwn yn gweithredu ar unwaith ac yn rhoi cam 2 y weithdrefn ar waith. Gall arolygydd ysgogi gweithredu cam 2 yn sgil:

- cael gradd D;
- ysgogi gweithredu cam un yn barhaus dros gyfnod o 18 mis; neu
- methu â dangos unrhyw welliant mewn perfformiad ar ôl camau gweithredu cam 1.

4.13 Gellir ystyried yr un wybodaeth, fel y nodir uchod yng ngham 1, wrth werthuso perfformiad yn y cam hwn.

4.14 Yn y lle cyntaf, byddwn yn ysgrifennu at yr AYG o leiaf ddeng niwrnod gwaith cyn ei wahodd/gwahodd i gyfarfod, gan gynnwys y canlynol yn y llythyr:

- manylion am ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod
- gwybodaeth ddigonol am y tanberfformio a'i ganlyniadau posibl (i gynnwys tynnu oddi ar ein rhestr gofrestredig/ymrestredig) er mwyn galluogi'r AYG i baratoi i drafod y mater mewn cyfarfod ffurfiol, a chynnig esboniad. Byddwn yn rhoi unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i'r AYG cyn y cyfarfod
- manylion am hawl yr AYG i gael cwmni yn y cyfarfod
- y weithdrefn sydd i'w dilyn i fynd i'r afael â'r perfformiad anfoddhaol
- esbonio os nad yw perfformiad yn gwella, o fewn y raddfa amser gytûn, y gallai fod angen symud at gam 3 y weithdrefn – rhoi amodau ar waith neu dynnu oddi ar y rhestr o arolygwyr cofrestredig/ymrestredig

4.15 Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor a chymorth a sicrhau bod yr AYG yn gweithredu ar yr hyn a gytunir. Dylai'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol gadw nodyn ffeil o gynnwys y drafodaeth a dylid marcio hwn Diogelu: Personol. Bydd taflen monitro cynllun gweithredu yn cael ei llenwi.

4.16 Enghreifftiau o gamau gweithredu y gellir eu cynnwys yn y cynllun gweithredu:

- AYG yn ymgymryd â hyfforddiant pellach ar ei draul ei hun;
- AYG yn lleihau gweithgarwch arolygu; neu
- Estyn yn cefnogi camau gofynnol i wella perfformiad.

4.17 Byddwn yn llunio barn ynglŷn â'r amodau y dylid eu cymhwyso yn yr amgylchiadau penodol.

**Amodau a gymhwysir yn ystod Cam 2: Ffurfiol**

4.18 Byddwn yn cadw'r hawl i derfynu contractau a ddyfernir i AYG ar unwaith, heb unrhyw gost i'r sefydliad (Amodau Contract: Terfynu; lle mae'r contractwr yn destun ymchwiliad am unrhyw reswm), a/neu gyfyngu ar dendro yn y dyfodol, gan gynnwys atal o'r rhestr contractau 'yn ôl y gofyn'.

4.19 Bydd yr AYG yn cael ei wahardd/gwahardd rhag tendro nes bod y cynllun gweithredu cytûn wedi'i gwblhau. Gall y cynllun gweithredu gynnwys rhaglen o hyfforddiant priodol, hyfforddi, cysgodi arolygiad, (ar draul yr AYG) ac o fewn pellter teithio rhesymol. Byddwn yn gwerthuso gwaith yr arolygydd o fewn cyfnod amser a gofnodir ac a gytunir yn ei gynllun/chynllun gweithredu.

**Cyfnod adolygu**

4.20 Ar ôl cwblhau ei gynllun/chynllun gweithredu cytûn yn llwyddiannus, bydd yr AYG yn destun cyfnod adolygu. Yn ystod yr adolygiad, bydd yr AYG yn gallu tendro, ond rydym ni'n cadw'r hawl i gyfyngu ar nifer yr arolygiadau a ddyfernir iddo/iddi i lefel gryn dipyn yn is, ar sail ei batrwm/phatrwm blaenorol o arolygiadau. Bydd y cyfnod adolygu yn cynnwys y cylch tendro nesaf a hyd at dri arolygiad wedi'u cwblhau.

4.21 Yn ystod cyfnod adolygu cam 2, os yw gwaith yr AYG yn gwella (dwy radd A neu B yn cael eu dyfarnu o fewn y sector perthnasol) ac nad oes unrhyw ddigwyddiad sy'n teilyngu gradd C neu D, yna ni chymerir unrhyw gamau pellach a bydd y cyfnod adolygu yn dod i ben. Fodd bynnag, os bydd yr arolygydd (o'r pwynt ymyrraeth gennym ni yng ngham 2) yn cael dwy radd C neu un radd D o fewn y tri arolygiad yn y sector perthnasol, yna bydd camau gweithredu Cam 3 yn gymwys.

## 5 Tynnu enw o'r rhestr arolygwyr cofrestredig/ymrestredig

**Cam 3**

5.1 Pan fydd cam 3 wedi'i ysgogi, bydd contract(au) arolygu'r AYG yn cael ei derfynu a bydd yn cael ei wahardd/gwahardd rhag tendro am arolygiadau pellach. Bydd panel Estyn yna'n ystyried statws yr arolygydd a/neu yr amodau ychwanegol a fydd yn cael eu gosod ar unrhyw arolygydd. Wrth benderfynu a ddylid argymell i PAEF fod enw'r arolygydd yn cael ei dynnu o'r rhestr gofrestredig/ymrestredig neu y dylid gosod amodau ychwanegol, byddwn yn ystyried:

- graddau unrhyw ymddygiad annerbyniol
- i ba raddau y mae'r arolygiad yn hynod gamarweiniol neu y mae'r adroddiad yn hynod ddiffygiol
- materion yn ymwneud â thanberfformiad parhaus
- esboniadau'r arolygydd
- arolygiadau ac adroddiadau blaenorol yr arolygydd
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill

5.2 Dylai'r panel hwn gynnwys tri o bobl nad oedd ganddynt unrhyw ran benderfynu yn y camau blaenorol. Dyma'r bobl sy'n gymwys i fod ar y panel:

- Cyfarwyddwyr Strategol
- Cyfarwyddwyr Cynorthwyol
- y Swyddog Arweiniol ar gyfer PA
- y Swyddog Arweiniol ar gyfer SA
- arolygwyr arweiniol sectorau
- arolygwyr sydd â phrofiad o'r sector penodol

5.3 Bydd pob achos sy'n cynnwys tynnu enw o'r rhestr gofrestredig/ymrestredig neu osod amodau ychwanegol yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Bydd pwys cyfun pob un o'r ffactorau yn cael ei ystyried wrth wneud argymhelliad ynghylch tynnu enw o'r rhestr neu fel arall. Bydd y panel yn argymell i PAEF pa ddull gweithredu y dylid ei ddilyn mewn perthynas ag arolygydd unigol.

5.4 Yn unol ag adran 26 Deddf Addysg 2005, os oes camau i'w cymryd yn erbyn arolygydd, bydd PAEF yn ysgrifennu at yr arolygydd yn dweud eu bod yn bwriadu tynnu ei enw o'r rhestr gofrestredig/ymrestredig neu osod amodau. Mae hawl apelio, a rhaid i'r apêl gael ei gwneud fel arfer cyn pen 28 diwrnod o dderbyn hysbysiad am y penderfyniad sy'n destun anghydweld. Bydd yr apêl i Dribiwnlys a sefydlwyd yn unol ag adran 27 ac Atodlen 3 Deddf Addysg 2005.


5.5 Bydd yr AYG yn parhau wedi'i wahardd o arolygiadau, tra'n disgwyl canlyniad unrhyw apêl.

5.6 Mae copïau o'r Deddfau a'r Offerynnau Statudol sy'n tanategu gwaith Estyn gydag AYGau a'r prosesau apelio perthnasol ar gael oddi wrth Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus yn www.opsi.gov.uk. Dyma'r rhai mwyaf perthnasol:

- Deddf Addysg 2005 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

- Rheoliadau Addysg (Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a Thribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin) (Gweithdrefn) 1999 (Offeryn Statudol 1999 Rhif 265)
- Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 (Offeryn Statudol 2006 Rhif 1714)
- Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 1999 (Offeryn Statudol 1999 Rhif 1441)
- Deddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992

# Atodiad 1: Monitro ansawdd gwaith arolygwyr



## Atodiad 2: Tabl effaith hyfforddiant

| | Effaith Hyfforddiant | SAAr/SAAd |
|---|---|---|
| Cam 1 | • Cynllun gweithredu<br>• Gall fod yn ofynnol i AYG fynychu hyfforddiant diweddaru a/neu arolygiadau ar ei draul ei hun | Yn bendant<br><br>Posibl |
| Cam 2 | • Cynllun gweithredu<br>• Bydd yn mynnu cysgodi neu hyfforddi ar arolygiad o fewn pellter rhesymol i gyfeiriad cartref yr AYG ac ar ei draul ei hun<br>• Gall fod angen hyfforddiant/cymorth pellach o ran yr amodau sydd wedi'u gosod<br>• Gall fod yn ofynnol mynychu digwyddiad hyfforddi ar ei draul ei hun | Yn bendant<br>Yn bendant<br><br>Posibl |
| Cam 3 | • Mae panel Estyn yn argymell ffordd o weithredu | |

## Atodiad 3:  Arolygwyr Cymheiriaid a Phartneriaid Gwella Ysgolion

**At ddiben yr arweiniad hwn, mae'r term Arolygydd Cymheiriaid yr un mor berthnasol i uwch arweinwyr yn eu rôl fel Arolygwyr Cymheiriaid ag ydyw i Bartneriaid Gwella Ysgolion sy'n ymuno â thimau arolygu.**

Tra bod llawer o'r arweiniad cyffredinol a amlinellwyd uchod hefyd yn ymwneud â gwaith Arolygwyr Cymheiriaid (AC), mae statws cyflogaeth Arolygwyr Cymheiriaid a'u perthynas gytundebol gydag Estyn yn wahanol iawn i rai Arolygwyr Cofrestredig, Arolygwyr Ychwanegol ac Arolygwyr Lleyg.

Yn y Memorandwm Dealltwriaeth gydag Arolygwyr Cymheiriaid, mae'n datgan na fyddwn yn defnyddio Arolygwyr Cymheiriad ymellach os na fyddant yn perfformio'n effeithiol, yn ôl barn yr arolygiaeth.

Yn unol ag arolygwyr eraill, gall gwybodaeth am berfformiad Arolygwyr Cymheiriaid ddod o unrhyw weithgarwch sicrhau ansawdd y bydd Estyn yn ymgymryd ag ef.  Mae hyn yn cynnwys pob gwybodaeth am sicrhau ansawdd (SAAr a SAAd), holiaduron ôl-arolygiad (HOA), unrhyw adborth arall ac unrhyw gwynion a gadarnhawyd, er mai'r brif ffynhonnell wybodaeth am berfformiad AC fydd FfGA fel arfer.

Os bydd pryderon yn codi ynghylch ansawdd gwaith Arolygwyr Cymheiriaid trwy ddyrannu gradd C gyffredinol ar FfGA, yna byddwn yn edrych ar bob achos yn unigol, ond mae'n debygol y bydd yn cynnig cymorth i'r AC, er enghraifft, trwy ei ddyrannu i dîm mwy lle bydd ei faich unigol yn llai a gall gael cymorth gan fwy o gydweithwyr ar y safle.

Fodd bynnag, lle mae Arolygydd Cymheiriaid yn parhau i berfformio ar lefel isel (er enghraifft, dwy radd C yn olynol) yna mae'n debygol na fyddwn yn ei ddefnyddio ar arolygiadau pellach.

Lle mae Arolygydd Cymheiriaid yn cael gradd D am ei waith yn ystod arolygiad, byddwn yn ystyried ar unwaith peidio â'i ddefnyddio ar unrhyw arolygiadau pellach, a bydd yn ystyried tynnu ei enw oddi ar y rhestr o Arolygwyr Cymheiriaid.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau ar y cyd Estyn ac AGC

Caiff tua hanner yr arolygiadau meithrin nas cynhelir bob blwyddyn eu harwain gan Estyn, a thua hanner ohonynt gan AGC. Bydd gwybodaeth am ansawdd gwaith arolygwyr cofrestredig meithrin unigol dan gontract yn cael ei chasglu mewn sawl ffordd, sef:

- cyfeirio sicrhau ansawdd arolygiadau (SAAr) gan AEF trwy ymweld â'r lleoliad
- sicrhau ansawdd adroddiadau (SAAd) gan AEF trwy'r broses olygu
- Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA) gan AEF trwy'r broses olygu
- data caffael ar Arolygwyr Cofrestredig Meithrin yn terfynu eu contractau
- adborth, yn cynnwys pryderon gan ddarparwyr, ac ar ffurf holiaduron ôl-arolygiad (HOA)
- cwynion sy'n cael eu cadarnhau

Mae'r broses SAAr ar gyfer arolygiadau ar y cyd o leoliadau nas cynhelir yr un fath ag ydyw ar gyfer y sectorau eraill a amlinellir yn y ddogfen hon.

Caiff ansawdd y gwaith ysgrifenedig a wneir yn ystod arolygiadau dan arweiniad AEF ei sicrhau mewn un o ddwy ffordd. Pan fydd arolygiad yn cael ei arwain gan Estyn, mae'r AEF yn cwblhau proses SAAd. Mae'r broses hon yr un fath ag ydyw ar gyfer y sectorau eraill a amlinellir yn y ddogfen hon.

Pan fydd arolygiad yn cael ei arwain gan AGC a'r Arolygydd Cofrestredig Meithrin yw'r dirprwy arweinydd, mae'r golygydd sy'n AEF yn llenwi FfGA, gan roi un radd gyffredinol ar gyfer yr Arolygydd Cofrestredig Meithrin. Nid oes angen FfGA pan fydd AEF yn ddirprwy arweinydd.

Mae'r broses ar gyfer mynd i'r afael â phryderon gan arolygwyr am y graddau a ddyfarnwyd, cwynion gan leoliadau a'r ffordd y mae Estyn yn ymateb i danberfformio'r un fath ag ydyw ar gyfer y darparwyr eraill a nodir yn y ddogfen hon.